ATODIAD IV

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GLYFFOSAD
NODYN GWYBODAETH – AWST 2018

Polisi Llywodraeth Cymru yw lleihau effaith y defnydd o blaladdwyr ar bobl, bywyd gwyllt, planhigion a'r amgylchedd i'r lefel isaf posib, tra'n sicrhau bod plâu, clefydau a chwyn yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae pob plaladdwr yn y DU yn gorfod bodloni safonau rheoleiddiol llym i sicrhau nad ydynt yn fygythiad i iechyd dynol neu iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae'r awdurdodau rheoleiddiol yn cynnal gwaith ymchwil gwyddonol parhaus i sicrhau bod cemegau o'r fath yn ddiogel i'w defnyddio ac nad ydynt yn cael effaith hirdymor ar yr amgylchedd.

Glyffosad yw'r sylwedd actif mewn llawer o chwynladdwyr ac fe'i defnyddir yn helaeth ledled y byd. Mae pob cymeradwyaeth i ddefnyddio sylweddau actif mewn plaladdwyr yn destun adolygiad cyfnodol ac mae cymeradwyo glyffosad wedi mynd drwy'r broses hon yn ddiweddar. Ym mis Tachwedd 2017, cafwyd cymeradwyaeth unwaith eto gan yr Undeb Ewropeaidd i barhau i ddefnyddio glyffosad o'r 16 Rhagfyr 2017. Mae'r adolygiadau o'r data gwyddonol gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) a Phwyllgor yr Asiantaeth Cemegau Ewropeaidd ar gyfer Asesu Risg wedi canfod nad oes pryderon ynghylch diogelwch a fyddai'n atal cymeradwyaeth barhaus, ac mae gwyddonwyr y DU yn cytuno â'r asesiad hwn. Mae'r gymeradwyaeth newydd yn parhau tan 15 Rhagfyr 2022; bydd yn rhaid cael penderfyniad arall er mwyn ei ddefnyddio wedi'r dyddiad hwnnw.

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaladdwyr mewn ardaloedd amwynder, e.e. parciau, yn cael ystyriaeth benodol yn ystod y broses awdurdodi. Caiff amodau y gellir eu gorfodi drwy'r gyfraith eu gosod ar sut y ceir defnyddio cynhyrchion, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r cyhoedd yn dod i gysylltiad â lefelau o blaladdwyr a fyddai'n niweidiol i iechyd neu'n cael effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd.

Dylid defnyddio plaladdwyr mewn ffordd gyfrifol mewn ardaloedd amwynder, gan wneud hynny fel rhan o raglen reoli integredig yn unig. Gallant fod o fudd i gymdeithas mewn sawl ffordd: rheoli ardaloedd cadwraeth, rhywogaethau goresgynnol a pherygl llifogydd; caniatáu i bobl ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel; a mannau cyhoeddus diogel (er enghraifft, drwy atal chwyn rhag tyfu ar wynebau caled a chreu perygl baglu), safleoedd diwydiannol a seilwaith trafnidiaeth.

O ran defnyddio glyffosad ar gyfer rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynnol, efallai yr hoffech nodi gwaith ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan Brifysgol Abertawe ar reoli clymog Japan yn gorfforol ac â chemegau. Y treialon maes hyn oedd y mwyaf o'u bath i'w gynnal yn y byd erioed. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol yn gynt eleni. Er nad oes triniaeth reoli wedi llwyddo i ddileu y planhigyn clymog Japan yn llwyr, dos priodol o glyffosad, y cam ffenolegol a faint y mae wedi lledaenu oedd y driniaeth reoli fwyaf effeithiol. Argymhellwyd bod rhanddeiliaid yn rhoi'r gorau i ddefnyddio chwynladdwyr eraill sy'n cael eu defnyddio'n aml i reoli Clymog Japan a dulliau rheoli corfforol eraill di-angen sy'n

ychwanegu costau offer a llafur ac yn cynyddu'r effaith amgylcheddol, heb wella'r dull o reoli, o gymharu â chwistrellu ar ei ben ei hun.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff yn y diwydiant a chydag eraill i hyrwyddo'r arferion gorau wrth reoli llystyfiant a chwyn yn y sector amwynder. Rydym yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Fforwm Amwynderau i ddangos pa mor bwysig yw defnyddio plaladdwyr mewn ffordd gynaliadwy, ac i ddatblygu'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio fel y bo pawb sy'n defnyddio plaladdwyr yn gwneud hynny yn unol â safonau uchel bob amser. Rydym yn annog y rheini sy'n defnyddio plaladdwyr i drafod â'r Fforwm Amwynderau, yn enwedig ar lefel yr awdurdodau lleol, er mwyn inni fedru bod yn siŵr bod y rheini sy'n defnyddio plaladdwyr mewn ardaloedd amwynder yng Nghymru yn cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Ddefnyddio Plaladdwyr mewn Ffordd Gynaliadwy (Saesneg yn unig) ac â chyfraith yr UE. Prif nod y Fforwm Amwynderau yw cynrychioli'r diwydiant amwynderau mewn perthynas â defnyddio plaladdwyr a rheoli chwyn a phlâu yn y sector. Er mwyn cyrraedd yn nod hwnnw, mae'r Fforwm wedi datblygu nifer o weithgareddau, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau i hyrwyddo negeseuon am arferion gorau, trefnu cynadleddau a gweithdai, a chydweithio'n agos ag Is-adran Rheoleiddio Cemegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod y sector amwynderau'n bodloni'r gofynion yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol.

Daw'r wybodaeth isod o wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n cyfeirio at rwymedigaethau a gafodd eu teilwra ar gyfer y bobl hynny yn y sector amwynderau sy'n defnyddio plaladdwyr proffesiynol.

Mae nifer o ofynion cyfreithiol ar y rheini sy'n defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion, neu sy'n peri neu'n caniatáu i eraill eu defnyddio, neu sy'n storio a/neu'n cael gwared ar gynhyrchion o'r fath. Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:

- Wrth ystyried defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion, dylid gwneud hynny fel rhan o raglen reoli integredig. Mae'r Fforwm Amwynderau yn cynnig cyngor ymarferol ar sut y gellir gwneud hynny.
- Os oes unrhyw un (gan gynnwys unrhyw un a oedd yn gweithredu yn y gorffennol o dan 'hawliau taid') yn defnyddio plaladdwyr fel rhan o'i weithgareddau proffesiynol, rhaid bod ganddo dystysgrif hyfforddiant benodedig a chydnabyddedig.
- Rhaid i bawb sy'n prynu cynhyrchion proffesiynol i amddiffyn planhigion gredu'n rhesymol bod y cynhyrchion yn cael eu defnyddio gan rywun sydd â thystysgrif benodedig.
- Rhaid bod gan yr holl gyfarpar a ddefnyddir i chwistrellu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, dystysgrif sy'n dangos ei fod wedi pasio prawf a gydnabyddir yn swyddogol ac a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr. Rhaid i gyfarpar gael ei brofi naill ai bob tair, pump neu chwe blynedd wedyn, gan ddibynnu pryd y cynhaliwyd y prawf mwyaf diweddar a chan ddibynnu hefyd ar y math o gyfarpar. Rhaid i'r holl gyfarpar gael ei galibradu'n rheolaidd.
- Rhaid i'r rheini sy'n defnyddio plaladdwyr, neu sy'n peri neu'n caniatáu iddynt gael eu defnyddio, sicrhau: bod pob gofal rhesymol yn cael ei gymryd i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd; mai dim ond mewn ardaloedd targed y cânt eu defnyddio; ac mewn ardaloedd penodol (gan gynnwys mannau cyhoeddus ac ardaloedd

cadwraeth) a bod cyn lleied ohonynt ag y bo'n rhesymol bosibl yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu defnyddio mor anaml â phosibl.

- Dylid rhoi blaenoriaeth i gynhyrchion penodol os oes unrhyw berygl i ansawdd dŵr.
- Rhaid i ddefnyddwyr proffesiynol a dosbarthwyr gymryd pob gofal rhesymol i sicrhau bod plaladdwyr yn cael eu trafod, eu storio a'u gwaredu mewn ffordd nad yw'n peryglu iechyd pobl na'r amgylchedd.
- Rhaid i fannau storio cael eu hadeiladu mewn ffordd a fydd yn atal cynhyrchion rhag cael eu rhyddhau mewn ffordd annerbyniol.